



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2017

Wedi'i baratoi gan y Tîm Gweithredu Polisiâu a Chyfarwyddebau
Dŵr

Fersiwn 2

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Methodoleg Asesiad Perfformiad Amgylcheddol.....	3
Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru ar gyfer 2017	4
Negeseuon perfformiad allweddol.....	5
Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2018 a'r tu hwnt	7
Atodiad 1 – Graffiau atodol	8
Ffigur 1	8
Ffigur 2.....	8
Ffigur 3.....	9
Ffigur 4.....	10
Ffigur 5.....	10
Ffigur 6.....	11
Atodiad 2 – Crynodeb o berfformiad Dŵr Cymru o ran yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2011-17	12

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad allanol hwn yn crynhoi perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru ar gyfer 2017. Byddwn yn gwerthuso'r cynnydd da y mae'r cwmni wedi'i wneud ac yn nodi gwelliannau yr hoffem eu gweld.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr awyr, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Fel rheoleiddiwr, rydym yn ceisio sicrhau bod gan y sawl rydym yn eu rheoleiddio yr adnoddau i wneud y peth cywir.

Bob blwyddyn, rydym yn asesu perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad Dŵr Cymru ar gyfer 2017. Fodd bynnag, rydym hefyd yn darparu data perfformiad amgylcheddol ar Severn Trent Water i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth am Severn Trent Water a throsolwg llawn o'r sector, ewch i gov.uk.

Methodoleg Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un dangosyddion a methodoleg Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Golyga hyn y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn gweddill y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae dangosyddion yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau achosion o lygredd a chynyddu nifer yr achosion y mae'r cwmni'n adrodd amdanynt
- cydymffurfio â thrwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr
- rheoli'r defnydd o laid carthion a gwaredu arno
- cyflwyno cynlluniau gwella amgylcheddol
- cyflwyno cyflenwadau dŵr diogel ('diogelwch y cyflenwad').

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn cael ei osod am hyd cynllun rheoli asedau presennol y cwmnïau dŵr sydd o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2020. Mae'r dangosyddion yn absoliwt yn hytrach na chymharol. Felly, dylai'r holl gwmnïau allu cyflawni perfformiad da yn erbyn y rhain erbyn 2020 neu cyn hynny.

Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru ar gyfer 2017

Mae'r tabl isod yn dangos sut wnaeth Dŵr Cymru berfformio yn erbyn saith dangosydd yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol yn 2017. Mae gan bob dangosydd drothwyon cytunedig (sy'n newid pob pum mlynedd i ddatblygu gwelliannau perfformiad yn barhaus) a ddefnyddir i roi statws - coch, oren neu wyrdd.

Dangosydd Aseiad Perfformiad Amgylcheddol		Yr hyn y mae'r dangosydd hwn yn ei olygu	Perfformiad Dŵr Cymru yn 2017	Statws y dangosydd ar gyfer 2017	Gradd seren cwmni Dŵr Cymru
Achosion o lygredd (carthffosiaeth)	Achosion categori 1-3 fesul 10,000km o garthffos	Sawl achos o lygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o Gategori 1-3, wedi'u normaleiddio gan hyd y garthffos	28.2	Oren	
Achosion o lygredd difrifol (carthffosiaeth)	Achosion categori 1-2 fesul 10,000km o garthffos	Sawl achos o lygredd carthffosiaeth difrifol a ddigwyddodd, o Gategori 1-2, wedi'u normaleiddio gan hyd y garthffos	0.28	Gwyrdd	
Cydymffurfiaeth â Thryddedau Gollwng (Gwaith Trin Carthion a Gwaith Trin Dŵr)	%	Canran cydymffurfiaeth Gwaith Trin Carthion a Gwaith Trin Dŵr â therfynau ansawdd dŵr wrth eu gollwng	96.7	Coch	
Defnyddio/Gwaredu ar Laid mewn modd Digonol	%	Pa mor dda y gwaredwyd ar laid carthion a'i ddefnyddio	100	Gwyrdd	**
Hunan-adrodd am Achosion o Lygredd	%	Canran yr achosion o lygredd yr adroddodd y cwmni ei hun amdanynt	63	Oren	
Cyflwyno Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Cynllun Rheoli Asedau	% y cyflawni cynlluniedig	A yw Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Cynllun Rheoli Asesu yn cael ei chyflwyno yn ôl y cynllun	100	Gwyrdd	
Mynegai Diogelwch y Cyflenwad		Pa mor dda y byddent wedi bodloni eu darpariaeth ar lefelau gwasanaeth ar gyfer cyfyngiadau ar gyflenwad dŵr, petai 2017 wedi bod yn sych	98	Oren	

Allwedd: Gradd seren y cwmni

****	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
***	Cwmni da
**	Mae angen gwella'r cwmni
*	Cwmni sy'n perfformio'n wael

Allwedd: Statws perfformiad

	Perfformiad yn well na'r targed
	Perfformiad yn agos neu ychydig yn is na'r targed
	Perfformiad yn sylweddol is na'r targed

Negeseuon perfformiad allweddol

- Yn 2017, disgynnodd Dŵr Cymru o fod â gradd cwmni 3* 'da' i gwmni 2* 'y mae angen ei wella' oherwydd bod un dangosydd (cydymffurfiaeth â thrwyddedau) yn troi'n goch.
- Mae'r dangosydd cydymffurfiaeth â thrwyddedau'n ystyried pa mor dda mae gwaith trin carthion a gwaith trin dŵr yn cydymffurfio â'r terfynau ansawdd dŵr wrth eu gollwng i'r amgylchedd. Disgynnodd cydymffurfiaeth o statws gwyrdd (99%) yn 2016 i goch (96.7%) yn 2017. Mae hyn oherwydd y gwnaeth 10 o'r 559 o weithfeydd trin carthion niferol a 10 o'r 47 o weithfeydd trin dŵr niferol fethu â bodloni'r terfynau ansawdd dŵr wrth eu gollwng, fel sy'n ofynnol gan y Trwyddedau Amgylcheddol. **Gweler Ffigurau 1 a 2 yn Atodiad 1.**
- Mae cydymffurfio â Thrwyddedau Amgylcheddol yn ofyniad statudol. Felly, rydym yn disgwyl gwelliant yn y dangosydd hwn i gyflawni 100% fel bod yr effaith ar yr amgylchedd yn cael ei lleihau.
- Canfuom fod 11 o weithfeydd trin carthion yn anghydymffurfio â gofynion trwydded Llif Tywydd Sych. Mae tri gwaith hefyd yn cael eu harchwilio ynghylch y llif sy'n ofynnol i'w drosglwyddo am driniaeth lawn. Mae Dŵr Cymru yn parhau i archwilio a datrys y materion hyn. Mae ail-ardystio cyfarpar monitro drwy MCERTS wedi arwain at welliannau parhaus ac mae'r cwmni'n cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd.
- O ran y camau gorfodi rydym wedi'u cymryd yn erbyn Dŵr Cymru yn 2017, derbyniwyd dau rybudd ffurfiol gan Dŵr Cymru. Yn y ddau achos, maent yn ymwneud â'r cwmni'n methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded. Nid oes modd i ni gynnwys unrhyw wybodaeth am achosion sy'n parhau.
- Mae'r Mynegai Diogelwch y Cyflenwad yn mesur y graddau y gall y cwmni warantu darpariaeth ei lefelau gwasanaeth ar gyfer cyfyngiadau ar gyflenwad dŵr (e.e. gwaharddiadau defnydd dros dro) os yw'r flwyddyn flaenorol wedi bod yn sych. Y sgôr Mynegai Diogelwch y Cyflenwad ar gyfer 2017 yw 98, sy'n is na'r targed o 100. Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru i ddeall y camau gweithredu mae'n eu cymryd i gyflawni sgôr o 100 cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol.
- Mae cyfanswm nifer yr achosion yn gyffredinol wedi cynyddu i 115 (**gweler Ffigur 3 yn Atodiad 1**). Fodd bynnag, mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ond yn ystyried achosion o lygredd oherwydd carthion, ac felly nid yw'n cynnwys achosion dŵr yfed. Felly, mae dangosydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi gostwng oherwydd bod nifer yr achosion o lygredd oherwydd carthion (categori 1 – 3) wedi gostwng o 107 yn 2016 i 102 yn 2017 (**gweler Ffigur 4 yn Atodiad 1**). Dyma'r cofnod isaf erioed ac mae'n dangos bod y mesurau y mae Dŵr Cymru'n eu cymryd i nodi gwraidd yr achos ac ymgymryd ag ymyriadau rhagweithiol o ran achosion o lygredd yn cael effaith gadarnhaol.
- Un achos difrifol yn unig (Categori 2) o lygredd oherwydd carthion a gafwyd yn 2017. Ni chafwyd unrhyw achosion Categori 1 sy'n ymwneud â charthion ers 2011.

- Rydym yn siomedig i weld gostyngiad pellach o ran hunan-adrodd am achosion o lygredd, gan ostwng ddwy flynedd yn olynol o uchafbwynt yn 2015 o 74% i 68% yn 2016 ac yna i 63% yn 2017. Mae hyn yn cynyddu ymhellach y bwlch rhwng cyfartaledd y diwydiant dŵr o 76% (**gweler Ffigur 5 a 6 yn Atodiad 1**).
- Ffigwr gollyngiadau Dŵr Cymru ar gyfer 2016/17 oedd 175 Megalitr y dydd, sy'n llai na'r targed Lefel Gollyngiadau Economaidd Gynaliadwy o 177 Megalitr y dydd ar gyfer 2016/17.
- Y defnydd dŵr ar gyfartaledd fesul unigolyn oedd oddeutu 145 litr fesul unigolyn y dydd yn 2016/17. Gwnaeth canran y cwsmeriaid preswyl yr oedd eu biliau'n seiliedig ar ddarlleniadau eu mesuryddion gyrraedd 41% yn 2016/17.
- O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Mae gofyn iddynt weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ac mae dyletswydd arnynt i gydweithio ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru. Mae Dŵr Cymru'n ceisio cyfleoedd i weithio gyda ni a phartneriaid eraill i leihau perygl llifogydd. Maent hefyd yn datblygu eu rhaglen draenio cynaliadwy ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y broblem o lifogydd carthffosydd drwy eu hymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc'.
- Mae Dŵr Cymru'n rheoli 126 o Gronfeydd Dŵr Uwch Mawr sy'n fwy na 10,000m³ yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Diben y gyfraith hon yw atal achosion o ryddhau dŵr heb reolaeth sy'n arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon . Mae'n rhaid i bob Cronfa Ddŵr Uwch Mawr ymgymryd ag archwiliad statudol cyfnodol a rhoi argymhellion ar waith a wnaed gan Beiriannydd Arolygu annibynnol. Mae'n rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwyllo bob amser gan beiriannydd sifil cymwys a rhaid bod cofnodion yn cael eu cadw o brif wybodaeth a gweithgareddau monitro. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â Thîm Diogelwch Argaeau Dŵr Cymru i adolygu cynnydd o ran cwblhau mesurau diogelwch ac i ddarparu tystiolaeth. Mae lefelau cydymffurfio'n uchel yn gyffredinol. Lle cafwyd oedi o ran cwblhau gwaith diogelwch, roedd modd cyfiawnhau hyn ac rydym wedi cael gwybod yn ystod y camau cynharaf, ynghyd â nodiadau ymgynghorol gan beirianwyr cronfeydd dŵr annibynnol. Mae Dŵr Cymru wedi nodi ei fod am fod yn "sefydliad enghreifftiol o ran diogelwch cronfeydd dŵr".
- Mewn perthynas â chyflwyno Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Cynllun Rheoli Asedau, cafodd 100% o welliannau cynlluniedig o ran asedau Dŵr Cymru, y bwriadwyd eu cwblhau yn 2016/17, eu cwblhau ar amser. Bydd y gwelliannau hyn yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflwyno gwelliannau ansawdd dŵr.
- Mae defnyddio a gwaredu ar laid carthion mewn modd digonol wedi parhau ar 100%.


Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2018 a'r tu hwnt

Erbyn 2020, hoffem i Dŵr Cymru geisio cyflawni statws gwyrdd ar draws dangosyddion yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol drwy gyflwyno'r canlynol:


- cynyddu cydymffurfiaeth â thrwyddedau amgylcheddol i gyflawni 100%
- cynyddu cyfraddau hunan-adrodd am achosion o lygredd i gyflawni 75% erbyn 2020
- cynyddu sgôr y Mynegai Diogelwch y Cyflenwad i gyflawni 100
- parhau i gynnal 100% ar gyfer defnyddio a gwaredu llaid
- parhau i leihau achosion o lygredd, gan anelu at gyflawni dim achosion o lygredd difrifol
- parhau i gyflwyno cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau yn ôl yr amserlen.

Atodiad 1 – Graffiau atodol


Figur 1




Figur 2




Ffigur 3




Ffigur 4



Ffigur 5



Ffigur 6



Atodiad 2 – Crynodeb o berfformiad Dŵr Cymru o ran yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol 2011-17

	Aseiad Perfformiad Amgylcheddol Gwreiddiol					Aseiad Perfformiad Amgylcheddol Diwygiedig		
	2011	2012	2013	2014	2015	2015E	2016	2017
Achosion o Lygredd (carthffosiaeth) Achosion categori 1-3 fesul 10,000km o garthffos	132	110	66	59	59	30.4	29.8	28.2
Achosion o Lygredd Difrifol (carthffosiaeth) Achosion categori 1-2 fesul 10,000km o garthffos	2.2	3.3	1.1	2.2	1	0.6	0.6	0.28
Cydymffurfiaeth â Thrwyddedau Gollwng (Gwaith Trin Carthion a Gwaith Trin Dŵr) %	95.6	98.6	97.7	97.8	98.6	97.1	99.0	96.7
Defnyddio/Gwaredu ar Laid mewn modd Digonol %	100	100	100	100	100	100	100	100
Hunan-adrodd am Achosion o Lygredd %	37	47	48	60	74	74	68	63
Cyflwyno Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Cynllun Rheoli Asedau % y cyflawni cynlluniedig	87	116	100	100	100	100	100	100
Mynegai Diogelwch y Cyflenwad	Amh .	Amh .	Amh .	Amh .	Amh .	100	100	98
Gradd y cwmni	*	***	***	***	***	***	***	**

Allwedd: Gradd seren y cwmni

****	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
***	Cwmni da
**	Mae angen gwella'r cwmni
*	Cwmni sy'n perfformio'n wael

Allwedd: Statws perfformiad

	Perfformiad yn well na'r targed
	Perfformiad yn agos neu ychydig yn is na'r targed
	Perfformiad yn sylweddol is na'r targed

Mae'r golofn â'r pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015 sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf Aseiad Perfformiad Amgylcheddol newydd (2016-2020). Mae hyn wedi'i gynnwys at ddibenion cymharu'n unig. Adolygir y trothwyon Coch/Oren/Gwyrdd bob pum mlynedd.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru.